



Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 30AIN MEDI, 2021**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 y.b.

Lleoliad

## Yn Rhithiol - Zoom

Mynediad i'r cyhoedd - cysylltwch i gael mynediad o.g.y.dd.

Pwynt Cyswllt

**Einir Rhian Davies**

**01286 679868**

**[einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru](mailto:einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Iau 23 Medi 2021)

# **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

## **AELODAETH (18)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Annwen Daniels  
Gareth Tudor Morris Jones  
Olaf Cai Larsen  
Berwyn Parry Jones

Beca Brown  
Alan Jones Evans  
Linda Ann Jones  
Dafydd Owen  
Linda Morgan

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes  
Beth Lawton  
Angela Russell

Eryl Jones-Williams  
Dewi Wyn Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Anwen J. Davies

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd

### **Propel (1)**

Y Cynghorydd

Peter Read

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2021 fel rhai cywir.

## 5. SIOP UN STOP TAI

8 - 10

Canfod barn a mewnbwn y Pwyllgor Craffu ynglŷn â'r cysyniad o sefydlu Siop Un Stop Tai ac adnabod y camau nesaf.

## 6. ASESIAID ANGHENION POBLOGAETH GWYNEDD

11 - 13

Cyflwyno'r dull ar gyfer paratoi Aseiad Anghenion Poblogaeth 2022-2027 ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad i'w graffu gan y Pwyllgor.

## 7. Y GWASANAETH SICRWYDD ANSAWDD O FEWN YR UNED DIOGELU

14 - 18

I ddarparu trosolwg o waith yr Uned Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 01/07/2021

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd).  
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

Beca Brown, Anwen J Davies, R Medwyn Hughes, Berwyn Parry Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Olaf Cai Larsen, Beth Lawton, Linda Morgan, Dewi Wyn Roberts

**Swyddogion yn bresennol:**

Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), E Mererid Watt (Cyfieithydd), Elin Wynne (Cyfieithydd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari W Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Alun G Williams (Uwch Reolwr Anabledau Dysgu - De)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9:**

Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Marian P Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2021/22.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Angela Russell yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2021/22.

Diolchwyd i'r cyn-Gadeirydd, y cyn Is-Gadeirydd, Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu gwaith caled.

### **3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cyngorydd Menna Baines, Y Cyngorydd Annwen Daniels, Y Cyngorydd Linda Jones, Y Cyngorydd Dafydd Owen ac A Morwena Edwards.

### **4. DATGAN BUDDIANT**

Y Cyngorydd Dewi Roberts ar eitem 7 oherwydd bod aelod o'r teulu yn gweithio yn y maes. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Y Cyngorydd O Cai Larsen ac Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones am eu bod yn eistedd ar Fwrdd Adra. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### **5. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

### **6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2021 fel rhai cywir.

### **7. CEFNOGAETH I UNIGOLION SYDD A'R CYFLWR DEMENTIA YNG NGWYNEDD**

Derbyniwyd diweddariad gan yr Aelod Cabinet am y gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'r cyflwr dementia yng Ngwynedd, gan amlygu ei bod yn gyfnod hynod brysur. Amlygwyd fod niferoedd a'r cyflwr dementia ar gynydd ac er bod cyfnod Covid wedi bod yn heriol, eglurwyd fod gwaith datblygol wedi parhau.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion fod y cyfnod Covid wedi gorfodi'r Adran i ail edrych ar sut maent yn cynnig y gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio a rheoliadau Covid, ynghyd a chynnig y gwasanaethau angenrheidiol i'r unigolion. Cadarnhawyd fod Asesiad Anghenion Poblogaeth ar y gweill a fydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i'r Adran am yr anghenion a'r ddarpariaeth fydd eu hangen yn lleol am y blynyddoedd i ddod.

Cadarnhawyd mai y camau nesaf fydd i ail edrych ar y cynlluniau gwaith sydd yn cynnwys y gwaith sydd yn cael ei wneud gan Dementia Actif, y gwaith cefnogi a'r gwaith addasu cartrefi y Cyngor. Amlygwyd pryderon am gyllid craidd a fydd yn sicrhau y bydd modd ariannu'r gwaith i'r dyfodol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, a nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn :

O ran argaeledd ac addasrwydd staff, cadarnhawyd bod cyflogi staff addas gyda'r sgiliau cywir yn her, ond bod y Cyngor yn gwneud llawer o ymdrech i ddenu staff addas gan ddatblygu rhaglen hyfforddiant priodol. Nodwyd bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi yn y maes, ond bod angen parhau i ddenu staff i'r maes ar gyfer unrhyw ddatblygiadau y dyfodol.

O ran argaeledd gwlaŵ preswyl arbenigol i unigolion a Dementia, eglurwyd fod mwyafrif o wlaŵ cartrefi'r Cyngor yn llawn a bod rhestrau aros yn bodoli. Oherwydd

cyfyngiadau Covid, bu'n rhaid oedi agor uned arbenigol dementia gydag 8 gwely mewn un cartref gyda'r gobaieth y bydd yn bosib agor yr uned yn raddol yn y dyfodol agos.

Wrth drafod materion ariannol eglurwyd fod yr Adran yn manteisio ar bob cyfle posib am arian o wahanol ffynonellau. Amlygwyd pryderon am arian tymor hir gan fod grantiau'r Llywodraeth yn dueddol o fod am gyfnod o 2 i 3 blynedd.

Nodwyd ei bod yn sefyllfa anodd pan mae unigolyn yn gorfod symud o'r ardal i dderbyn gwasanaeth. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod yr Adran yn y broses o gwblhau darn o waith ar leoliadau all sirol sydd yn amlygu i le mae unigolion yn symud i dderbyn gofal. Gall hyn fod o ganlyniad i'r ffaith nad oes darpariaeth addas ar gael yn lleol neu yn ddewis personol.

O safbwynt cynlluniau y Cyngor i gynyddu Unedau Dementia arbenigol yng Ngwynedd, cadarnhawyd bod cynlluniau i ehangu, ynghyd a rhai cynlluniau cyffelyb yn y sector breifat. Amlygwyd Cynllun Hwb Dyffryn Nantlle a Safle Penrhos fel cynlluniau i'r dyfodol gan bwysleisio fod angen rhoi sylw i ardaloedd eraill yn ogystal. Eglurwyd y bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio ar gynlluniau blaengar gan ail-edrych ar y rhaglen buddsoddi mewn 12-18 mis.

**PENDERFYNWYD** : Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad a throsolwg o'r hyn sydd ar waith i gefnogi unigolion sydd yn byw gyda Dementia yng Ngwynedd.

## **8. DARPARIAETH TAI YN Y GYMUNED AR GYFER POBL GYDAG ANABLEDDAU DYSGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet a chadarnhaodd mai nod y Gwasanaeth yw cynorthwyo unigolion gydag anableddau dysgu i fyw mor annibynnol â phosib. Eglurwyd fod gwaith ymchwil wedi ei wneud sydd yn rhagweld y bydd galw ychwanegol am dai a chefnogaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf. Cadarnhawyd bod rhaglen waith cynhwysfawr yn ei lle sydd yn cynnwys llawer o waith ar y cyd i ymdrin â'r niferoedd fydd angen cymorth.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Anableddau Dysgu at yr argyfwng tai ac yr heriau mae hyn yn ei roi i'r unigolion sydd eisiau byw yn annibynnol. Eglurwyd fod cyfnod Covid wedi amlygu'r angen am ddarpariaeth dai a bod yn Adran yn edrych i roi camau yn ei lle i gyfarch yr angen. Cyfeiriwyd at y system blaenoriaethu anghenion unigolion gan bwysleisio bod y sefyllfa yn newid yn barhaus.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, a nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn :

Cyfeiriwyd at y system blaenoriaethu sydd yn bodoli ar draws y Sir, gan nodi blaenoriaethau

'Coch' - yn ddigartref neu angen tŷ ar unwaith, yn sicr dros y flwyddyn ddwy nesaf

'Amber' – yn byw gyda rhieni/gofalwyr, neu mewn tŷ, ac angen tŷ addas o fewn y tymor canolig, sef y 3-5 mlynedd nesaf

'Gwyrdd' – angen paratoi ar gyfer yr amser pan fydd angen tŷ yn y tymor hir (5+ mlynedd).

Cadarnhawyd bod cydweithio da rhwng y Cyngor a'r Cymdeithasau Tai, yn enwedig Adra a Cynefin, er bod Gwynedd yn fodlon mynd ar ei liwt ei hun, megis y cynlluniau prynu tai sydd eisoes ar y gweill.

Eglurwyd bod angen darn o waith pellach i edrych ar y graddau mae rhagweld anghenion unigolyn yn cael ei ystyried o ran opsiynau tai, er mwyn 'bandio' unigolion yn decach. Adroddwyd ymhellach bod peth gwaith tracio yn digwydd, o oed 15 i 16 yn unig gan nodi'r angen i wneud gwaith pellach gydag ystod oedran iau.

O ran y pryder am brinder byngalos yng nghyd-destun y Grant Cymdeithasol o £9 miliwn, nodwyd bod trafodaethau wedi cychwyn, ond bod angen ei ddatblygu ymhellach.

Derbyniwyd y sylw nad oedd dyddiad targed wedi ei osod yn erbyn y camau gweithredu yn yr adroddiad a chytunwyd i osod amserlen.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth bod perthynas dda gyda'r Cymdeithasau Tai a bod eu mewnbyn i'r Strategaeth yn adlewyrchu y galw yn yr asesiad anghenion.

I gloi, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet bod cydweithio da gydag eraill ond bod anghenion pob unigolyn yn wahanol a bod yr awydd a'r parodrwydd yno i wneud beth sydd ei angen. Nododd y bwriad i droi hwn yn Gynllun Gweithredu a diolchodd am y gefnogaeth i symud i'r camau nesaf.

**PENDERFYNWYD** : Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad yn ogystal â datgan cefnogaeth i gynnwys y rhaglen a chamau nesaf y Gwasanaeth Anabledd Dysgu, i sicrhau darpariaeth ddigonol o dai addas yn y gymuned ar gyfer unigolion gydag Anabledd Dysgu gan ystyried yr heriau.

## **9. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22**

Cyflwynwyd y rhaglen waith ddrafft yn deillio o'r gweithdy a gynhaliwyd, gan gadarnhau bod modd ei haddasu wrth i amser fynd heibio.

**PENDERFYNWYD** : Mabwysiadu rhaglen waith craffu 2021/22

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:40

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

<b>Dyddiad:</b>	Medi 30 2021
<b>Teitl:</b>	Siop Un Stop Tai
<b>Pwrpas:</b>	Canfod barn a mewnbwn y Pwyllgor Craffu ynglŷn â'r cysyniad o sefydlu Siop Un Stop Tai ac adnabod y camau nesaf.
<b>Swyddog cyswllt:</b>	Pennaeth Adran Tai ac Eiddo – Carys Fon Williams
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cyng. Craig ab Iago

---

### Cyflwyniad / Cefndir

1. Pasiwyd Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2020 a oedd yn amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r prinder cartrefi addas nifer oedd ar gael i bobl leol yng Ngwynedd. Bydd y CGT yn buddsoddi £77 miliwn mewn 33 o brosiectau dros y 6 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun bellach yn weithredol ac mae sawl ffrwd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
2. Datblygwyd y Cynllun yn dilyn fewnbwn oddi wrth y Pwyllgor Craffu Gofal mewn cyfarfod ar Ionawr 30 2020 cyn i'r rhaglen wariant arfaethedig gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Cabinet.
3. Un o elfennau'r Cynllun ydy'r bwriad i sefydlu Siop Un Stop Tai a chlustnodwyd £480k ar ei gyfer. Bydd sefydlu un fynedfa i drigolion Gwynedd gael cymorth arbenigol gyda'u gofynion Tai yn elfen arloesol o'r Cynllun Gweithredu Tai. Ar hyn o bryd, gall unigolyn o bosibl fynd i chwilio am gymorth at sawl adran wahanol o'r Cyngor neu at nifer o gyrff allanol. Mae'r drefn felly yn disgwyl i'r unigolyn ddeall unrhyw gymhlethdod sy'n perthyn i'r proses.
4. Diben yr adroddiad hwn yw i ddiweddarau'r Pwyllgor Craffu Gofal o'r gwaith sydd ar droed i ddatblygu gwasanaeth mwy effeithiol ar gyfer trigolion Gwynedd ynglŷn â'u chysylltiad â'r Cyngor yn ymwneud a'r maes tai. Yn ogystal, ymgynghori â'r Pwyllgor a derbyn ei farn cyn i waith pellach gael ei wneud i ddatblygu'r gwasanaeth.

### Y rhesymeg ynghyd a'r sefyllfa bresennol

5. Bwriad y Siop Un Stop ydy ymateb i'r heriau sy'n wynebu trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud a thai. Mae amrywiaeth sylweddol yn y fath o alwadau sydd yn cael eu derbyn gan y gwasanaeth. Mae hyn yn amrywio o ymholiadau cyffredinol; ceisiadau i fynd ar y gofrestr tai; addasiadau i'r anabl; cefnogaeth ddigartrefedd; cwynion am landlordiaid; unrhyw grantiau ar gyfer tai gwag a chyngor arbed ynni. Yn ogystal, mae unigolion yn cysylltu i dderbyn diweddariad ynglŷn â chais neu i hysbysu newid yn eu hanghenion am dŷ.
6. Yn ychwanegol, mae trigolion y Sir yn gwneud ymholiadau tai sydd yn ymwneud a gwasanaethau nad yw'n uniongyrchol o dan reolaeth y Cyngor, er mae'r gwasanaethau hyn yn bwydo i mewn neu yn rhedeg yn gyfochrog a gwasanaethau'r Cyngor. Er enghraifft, mae



Tai Teg yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth am gynlluniau Tai Fforddiadwy yn y Sir ar ran Cyngor Gwynedd. Yn amlwg, petai bobl yn cysylltu â'r Cyngor, rydym yn awyddus i sicrhau fod yr holl ffynonellau gwybodaeth a chyingor ar gael iddynt.

7. Fel cynghorwyr ar gyfer eich cymunedau, bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal yn ymwybodol fod rhai o'r trigolion sydd yn cysylltu â'r Cyngor mewn sefyllfa fregus. Ein nod felly, yw symleiddio'r nifer o ffyrdd y gall cwsmer gysylltu â ni i sicrhau ei fod yn cyrraedd y gwasanaeth cywir y tro cyntaf petai'r ymholiad yn un ar-lein, wyneb yn wyneb neu dros y ffon. Bydd hyn yn anelu i wella ein heffeithlonrwydd tra'n darparu gwasanaethau.
8. Mae ymholiadau presennol sydd yn cael eu derbyn gan yr Adran Tai ac Eiddo yn mynd un ai i Galw Gwynedd neu yn uniongyrchol i'r gwasanaethau. Er bod nifer o unedau yn gweithio yn agos gyda'i gilydd, gall sefyllfaoedd godi lle bod unigolyn angen cymorth oddi wrth mwy nag un uned neu adran.
9. Bydd creu un ffynhonnell gwybodaeth yn flaenoriaeth i hwyluso profiad yr unigolyn wrth gysylltu â'r Cyngor gydag ymholiadau ym maes tai. Er enghraifft, bydd unigolyn sydd yn rhoi cais i'r Tîm Opsiynau Tai angen cymorth gan yr Unedau Digartref yn ogystal. Fodd bynnag, byddai cyfeirio unigolyn i fwy nag un lle yn rhoi straen ychwanegol o bosibl ar yr unigolyn. Yn ychwanegol, gall sefyllfa godi lle nad yw'r swyddogion yn gwybod pwy sydd wedi delio gyda'r ymholiad a pha gyngor sydd eisoes wedi'i gynnig i'r unigolyn. Bydd y Siop Un Stop yn cadw'r wybodaeth berthnasol mewn un lle.
10. Ar hyn o bryd, mae'r Timau Grant Cymorth Tai (GCT) eraill yng Ngogledd Cymru wedi sefydlu prosesau Llwybr Sengl (neu SPOA) ar gyfer gwasanaethau Cymorth Tai - Gwynedd yw'r unig eithriad. Yn gyffredinol, prif bwrpas y Grant yw atal digartrefedd a chymhorthi pobl i gynnal eu tenantiaeth. Fel rhan o Raglen GCT Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22, mae dyraniad o wariant heb ei ymrwymo wedi'i glustnodi i edrych ar sefydlu fframwaith tebyg yng Ngwynedd. Er bod gwahaniaethau yn y modd y mae pob Awdurdod wedi sefydlu'r gwasanaeth hwn, prif rôl y Llwybr ydy gwirio addasrwydd ceisiadau ar gyfer derbyn gwasanaethau Grant Cymorth Tai a chyfeirio'r unigolyn at y darparwr mwyaf priodol. Yn arferol, nid yw'r Llwybr Sengl yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am asesu'r defnyddiwr ar gyfer y gwasanaeth cymorth, gyda'r cyfrifoldeb yn aros gyda'r darparwr.
11. Felly, mae'n hanfodol bydd unrhyw broses o ddarparu gwasanaethau trwy system cyfeirio yn digwydd law yn llaw â sefydlu Siop Un Stop a bod egwyddor llwybr mynediad sengl i wasanaethau Gwynedd yn cael ei chynnal.

## **Y Darpar Wasanaeth**

12. Tasg bwysig, fel rhan o'r broses o sefydlu Siop un Stop, fydd dysgu mwy am daith y cwsmer wrth iddynt wneud ymholiad. Hynny yw, beth oedd profiad y cwsmer o'r modd roedd y Cyngor wedi delio gyda'r ymholiad. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar y nifer o gysylltiadau roedd angen eu gwneud o fewn a thu allan yr Adran, eu profiad ar hyd y ffordd, a pha gyfleoedd hwyrach roedd wedi eu colli i wella'r gwasanaeth.
13. Mi fyddai sefydlu Siop Un Stop yn rhoi cyfleoedd i wella'r ffordd yr ydym yn casglu, coladu a defnyddio'r wybodaeth hwn i ddeall ein cwsmeriaid a'u hanghenion yn well. Byddwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth i hysbysu rheolwyr ar gyfer cynllunio ac addasu eu darpariaeth yn y dyfodol, a pha wasanaethau ychwanegol gallwn eu cynnig ac ym mha ffyrdd y darparwn hwy.

14. Disgwylir bydd sefydlu Siop un Stop yn cyfrannu at ein cynlluniau i redeg gwasanaethau mwy effeithiol ynghyd a chwilio am gyfleoedd i wneud gwell defnydd o adnoddau. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth ar gyfer datrysiadau technegol. Bydd angen casglu gwybodaeth gyson, gynhwysfawr a chyfredol mewn un sustem i ddarparu'r cyngor perthnasol. Yn ogystal, bydd angen datblygu rolau staff a'u hyfforddi i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol.
15. Mae profiad yn dangos fod pobl yn aml yn cysylltu gydag anghenion lle mae gwahanol swyddogion yn gyfrifol am roi cymorth. Byddai un man canolog fel pwynt cyswllt yn arbed amser ac arian i unigolyn ac yn gymorth i staff wrth iddynt geisio dod o hyd i ddatrysiadau. Bydd wybodaeth o'r sustem yn galluogi'r Cyngor i gael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd ym maes tai ac i ddatblygu gwasanaethau o safon uchel i'r dyfodol.
16. Rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda rhai o'r darparwyr a byddem yn awyddus i ymgynghori gydag ein partneriaid i sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r bwriad i sefydlu Siop Un Stop. Bydd yr Adran yn awyddus i dderbyn barn y Pwyllgor ynglŷn â'r cydsyniad o'r Siop un Stop gan sicrhau ei fod yn alinio gyda chymorth sydd yn cael ei gynnig gan Gymdeithasau Tai a darparwyr o'r trydydd sector.
17. Fel nodir uchod, mae arian wedi ei glustnodi yn Cynllun Gweithredu Tai ar gyfer sefydlu'r Siop un Stop ac mae'r Adran yn gobeithio penodi swyddog i roi ar waith yr awgrymiadau fydd yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor Craffu Gofal.

#### **Y camau nesaf**

18. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal am arweiniad ynglŷn â'r ffactorau y dylem eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun ar gyfer y gwasanaeth Siop Un Stop.
19. Yn dilyn derbyn adborth oddi wrth y Pwyllgor Craffu Gofal, bwriedir cynnal ymgynghoriad o'r darpar wasanaeth gyda'r partneriaid, yn cynnwys y Cymdeithasau Tai, asiantaethau yn y maes a phartneriaid o'r trydydd sector. Bydd yr holl adborth yn bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu fframwaith darparu a chomisiynu sustem rheoli gwybodaeth dros y misoedd nesaf.

# Eitem 6

<b>PWYLLGOR</b>	Pwyllgor Craffu Gofal
<b>DYDDIAD</b>	30 Medi 2021
<b>TEITL</b>	Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd
<b>AELOD CABINET</b>	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno'r dull ar gyfer paratoi yr asesiad anghenion

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Cyflwyno'r dull ar gyfer paratoi Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022-2027 ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad i'w graffu gan y pwyllgor.

## 2 CYFLWYNIAD / GWYBODAETH GEFNDIROL

- 2.1 Bob cylch etholiadol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn y gogledd gynhyrchu asesiad anghenion poblogaeth. Yn unol ag Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae angen i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol weithio gyda'i gilydd ar y cyd er mwyn asesu:
- Beth yw gofynion gofal a chefnogaeth y boblogaeth leol
  - Beth yw anghenion cefnogaeth gofalwyr
  - I ba raddau mae'r anghenion yna yn cael eu diwallu
  - Yr ystod a lefel o wasanaethau sydd ei angen er mwyn cwrdd â'r anghenion gofal a chefnogaeth sydd wedi eu hadnabod
  - Yr ystod a'r lefel o wasanaethau arbedol sydd eu hangen
- 2.2 Disgwylir cyhoeddi'r asesiad nesaf ar gyfer y rhanbarth erbyn 1 Ebrill 2022.
- 2.3 Mae gofyn statudol newydd eleni hefyd inni gyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad.
- 2.4 Er mwyn gwneud yn siŵr fod yr asesiad poblogaeth rhanbarthol yn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth pobl yn lleol, mae pob awdurdod lleol yn y gogledd yn paratoi asesiad lleol a fydd yn bwydo i'r asesiad rhanbarthol. Dilynir yr un drefn gyda'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad.
- 2.5 Bydd yr asesiad anghenion poblogaeth yn dangos yn inni beth yw anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gwynedd heddiw ac yn y dyfodol a bydd yn gymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn â chynllunio a darparu gwasanaethau yng Ngwynedd ac yn y gogledd. Bydd hefyd yn sail ar gyfer penderfyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud ag ariannu gwasanaethau. Bydd ein hadroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad hefyd yn helpu i wneud yn siŵr fod gennym farchnad sefydlog sydd yn gallu darparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y boblogaeth fel ag y maent wedi eu hadnabod yn yr asesiad anghenion.

### **3.0 DULL**

3.1 Er mwyn cynhyrchu asesiad llawn o anghenion y boblogaeth, a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, bydd angen inni:

- ymgysylltu gyda chymunedau, unigolion sy'n derbyn gwasanaeth a staff
- casglu data, e.e. tueddiadau poblogaeth, darpariaeth gwasanaeth
- ystyried y gofynion deddfwriaethol a pholisi
- dadansoddi'r dystiolaeth
- paratoi casgliadau

3.2 Mae'r themâu yn yr adroddiad yn eang ac yn cynnwys y canlynol fel materion craidd:

- Plant ag anableddau neu salwch
- Plant sydd â phrofiadau o ofal
- Plant sydd angen gofal a chefnogaeth
- Plant sydd mewn perygl o ddod i ofal
- Plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol
- Pobl hŷn
- Iechyd
- Anableddau corfforol
- Anableddau dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Amhariad ar y synhwyrâu
- Gofalwyr sydd angen cefnogaeth
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref, a thrais rhywiol

Mae hefyd angen rhoi sylw i penodol faterion diogelu, cydraddoldeb, y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd a'r iaith Gymraeg.

3.2 Rydym yn cydweithio gyda Thîm Adfywio'r Cyngor er mwyn rhannu'r gwaith o ymgysylltu gyda chymunedau, ac yn gwneud yn siwr ein bod yn gwneud y mwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael inni o weithgareddau ymgysylltu sydd wedi digwydd gennym ni, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector dros y blynyddoedd diwethaf,

3.3 Rydym yn cydweithio gyda swyddogion yn y Bwrdd Iechyd a Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn casglu data perthnasol ynglyn â nodweddion y boblogaeth a'r gwasanaethau maent yn ei dderbyn. Byddwn yn cydweithio gyda hwy hefyd ar y gwaith dadansoddi a pharatoi casgliadau cyn cylchredeg yr asesiad terfynol am ymgynghoriad ymysg rhanddeiliaid.

### **4.0 AMSERLEN**

4.1 Ni ellir gorbwysleisio pa mor heriol yw'r amserlen i'r holl randdeiliaid sydd ynghlwm gyda pharatoi'r asesiad ac adroddiad sefydlogrwydd y farchnad. Mae darparwyr yn parhau dan bwysau aruthrol oherwydd y pandemig, ac mae gweithwyr yn y Bwrdd Iechyd, y Cyngor a'r trydydd sector dan bwysau i roi blaenoriaeth i faterion gweithredol er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth o ddydd i ddydd.

4.2 Gofynnir inni gyflwyno gwybodaeth Gwynedd i'r tim rhanbarthol erbyn ddiwedd Hydref, a'r bwriad yw blaenoriaethu gwybodaeth o ymarferion ymgysylltu gan na fydd y gwaith o gasglu data, a'i ddadansoddi a pharatoi casgliadau wedi ei gwblhau o fewn y terfyn amser. Cyflwynir yr adroddiad rhanbarthol i'w gymeradwyo gan y Cyngor fis Mawrth 2022. Yn dilyn hyn, byddwn yn parhau â'r gwaith o asesu anghenion poblogaeth Gwynedd, ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar y cyd gyda'n partneriaid i gytuno ar amserlen y gwaith lleol.

## **5.0 ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r dull gweithredu a'r hyn y gobeithir ei gyflawni o fewn yr amserlen.

# Eitem 7

<b>PWYLLGOR</b>	Pwyllgor Craffu Gofal
<b>DYDDIAD</b>	30 Medi 2021
<b>TEITL</b>	Y Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Uned Diogelu
<b>AELOD CABINET</b>	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
<b>PWRPAS</b>	Darparu trosolwg o waith yr Uned Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn ydi cynnig trosolwg o waith yr Uned Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Ymgeisir i roi ffocws ar y galw ac ar effaith y gwaith yng nghyd-destun darparu gwasanaethau gofal i drigolion bregus yn y Sir.

## 2 CYFLWYNIAD / GWYBODAETH GEFNDIROL

- 2.1 Pwrpas y Tîm Sicrwydd Ansawdd yw cynorthwyo'r trigolion sydd angen gofal i "*fyw fy mywyd fel yr hoffwn ei fyw*". Mae gan y Tîm rôl allweddol i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu a'i ddarparu ar eu cyfer o ansawdd ac yn galluogi trigolion i wneud hynny mewn modd diogel.
- 2.2 Mae'r Tîm yn monitro a chefnogi darparwyr mewnol ac allanol i sicrhau bod y gofal yn cyd-fynd ag anghenion yr unigolion o fewn cartrefi preswyl, tai a chefnogaeth, darpariaeth gofal dydd a gofal cartref. Mae cyfrifoldebau'r tîm hefyd yn cynnwys monitro cartrefi nyrsio ar y cyd hefo cyd-weithwyr o'r Bwrdd Iechyd.

## 3 TROSOLWG

- 3.1 Cafodd y Tîm ei sefydlu ar ddiwedd 2016. Cyn hynny roedd gwendid sylfaenol yng ngallu'r Cyngor i fonitro ansawdd gofal i oedolion yn gyson ac effeithiol. Roedd y gwaith monitro oedd yn digwydd yn gwbl ymatebol ac nid yn rhagweithiol ac ataliol.
- 3.2 Ar hyn o bryd, mae'r Tîm yn cynnwys 3.5 Swyddog Sicrwydd Ansawdd. Mae un o'r swyddogion yma wedi ei secondio o'r Gwasanaeth Busnes yn yr Adran er cynorthwyo gyda'r gwaith sicrwydd ansawdd, gyda'r Adran yn ei hariannu o gyllid dros dro. Nid oes cyllid ar gyfer y swydd hon yng nghyllideb sylfaenol yr Uned Diogelu. Mae'r swyddog yma ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg ar hyn o bryd a bydd yn ymddeol ym mis Rhagfyr. Bydd hyn yn gadael y tîm hefo 3 swyddog (tua 2.6 WTE).

- 3.3 Mae sicrwydd ansawdd yn broses lle mae ansawdd gwasanaethau gofal yn cael ei fonitro yn erbyn safonau penodol. O fewn yr Adran Oedolion mae rhaid i hyn gynnwys y safonau sydd wedi eu gosod allan mewn amryw o reoliadau, canllawiau a deddfwriaethau ar lefel genedlaethol. Mae'r arweiniad yma a'r gofynion statudol yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cael eu monitro a'u gorfodi gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC/CIW). Ni ellir anwybyddu nag esgeuluso'r cyfrifoldebau yma ac fe all fod oblygiadau sylweddol i ddarparwyr o beidio dilyn a chyflawni ar y mesurau yma. Gall hyn gynnwys colli cofrestriad a'r hawl i weithio yn y maes gofal.
- 3.4 Mae angen monitro pob darparwyr sy'n cael ei gomisiynu gan yr Adran Oedolion o fewn y Sir. Mae hyn yn cynnwys:
- 11 Cartref Gofal Mewnol
  - 2 Gartref Anabledau Dysgu
  - 14 Cartref Gofal Preifat
  - 8 Cartref Nyrsio
  - 9 Darparwr Tai a Chefnogaeth
  - Pob Darparwr Gofal Cartref
  - Gwasanaethau Gofal Dydd
- 3.5 Ethos y Tîm ydi cefnogi darparwyr i wella a chynnal ansawdd. Tra bod y mwyafrif o ymweliadau monitro yn ddirybudd, byddwn hefyd yn croesawu cyswllt gan ddarparwyr sy'n nodi pryder am elfen o'r gwasanaeth ac yn gofyn am gefnogaeth i'w gyfarch.
- 3.6 Yn gyffredinol, ni fu monitro wyneb i wyneb yn ystod y cyfnod Covid-19. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sefydlwyd trefn o gyswllt dyddiol hefo'r darparwyr. Roedd y cyswllt hwn yn allweddol wrth i'r Cyngor ymdrechu i sicrhau bod y darparwyr hefo stoc ddigonol o PPE, bod staff digonol ar gael i gynnal gwasanaethau a bod y profion yn cael eu gwneud yn amserol. Roedd y swyddogion hefyd yn cefnogi o ran cysylltu hefo lechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddogion lechyd yr Amgylchedd ac Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod y darparwr yn gorfod delio hefo lleiafswm o alwadau. Un ffactor bwysig iawn o'r cyswllt hwn oedd holi am lesiant y rheolwr a'r staff gofal. Bu'n gyfle i reolwyr wyntyllu eu pryderon am y sefyllfa ac roedd hyn yn gymorth mawr i adeiladu perthynas o ymddiriedaeth hefo'r swyddogion. Rydym yn parhau i weld y bendithion o'r berthynas agos yma a ddatblygodd yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Tra bod dealltwriaeth glir o waith staff sicrwydd ansawdd i fonitro a chynnal safonau, mae yna elfen gref o ymddiriedaeth bartneriaethol wedi datblygu rhwng y Cyngor a'r darparwyr. Rydym yn awyddus i gadw ac adeiladu ar hyn fel yr ydym yn symud i gyfnod newydd o ran trefniadau a chynnal gwasanaethau gofal.
- 3.7 Gan fod cyfyngiadau bellach wedi eu codi'n rhannol a bod ymweliadau i gartrefi gofal a gwasanaethau eraill yn cael eu caniatáu, mae swyddogion sicrwydd ansawdd wedi

ail ddechrau monitro wyneb i wyneb yn y gwasanaethau ers mis Mehefin 2021. Mae'r tîm eisoes wedi ymweld â bron bob darparwr yn gychwynnol i ddweud beth yw ein bwriad; i holi pa wybodaeth all gael ei ddarparu dros e-bost ac i drafod os oes unrhyw broblemau/ pryderon sydd heb eu codi neu gael sylw eisoes. Mae rhaglen ymweliadau monitro yn cael ei pharatoi ar sail y wybodaeth ddechreuol yma gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i wasanaethau lle mae rhai problemau neu anawsterau wedi dod i'r amlwg.

- 3.8 Tua diwedd 2020, derbyniwyd nifer o adroddiadau diogelu yn honni nad oedd gofal addas yn cael ei ddarparu o fewn 5 cartref yn y Sir. Bu monitro wyneb i wyneb mewn ymateb i hyn ac fe roddwyd 3 cartref gofal a 2 cartref nyrsio o fewn y sir o dan y drefn Pryderon Cynyddol.
- 3.9 Oherwydd y gwaith monitro, rhoddwyd embargo ar leoliadau newydd ar y 5 cartref, dau bellach hefo embargo amodol o ran y nifer o breswylwyr newydd all gael eu derbyn.
- 3.10 Y Tîm Sicrwydd Ansawdd sy'n arwain ar y drefn Pryderon Cynyddol ar Wasanaethau Oedolion mewnol ac allanol ar ran yr Adran a'r Cyngor. Mae'n broses o gydlynu cyfarfodydd a phenderfyniadau amlasiantaethol, cynhyrchu asesiad risg, cynllun gweithredu cywirol/ datblygiadol a chydlynu'r monitro yn ystod y broses.
- 3.11 Os yw unrhyw ddarpariaeth yn tan berfformio a bod embargo ar fynediadau neu leoliadau yn ei le, mae'n cael effaith sylweddol ar y timau ardal o ran eu gallu i leoli neu defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Mae hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr unigolion a'u teuluoedd gan nad oes modd pob amser i leoli o fewn eu dewis ardal neu dderbyn gwasanaeth penodol yn eu cymuned yn amserol. Mae embargo hefyd yn medru cael effaith ariannol sylweddol ar berchnogion y busnes ac nid yw hi'n bosibl iddynt oroesi ym mhob achos. Yn naturiol, y nod ydi osgoi cyrraedd y pwynt yma ond os yw'r sefyllfa'n codi, mae'n holl bwysig ein bod yn ymdrin ag achosion o bryderon cynyddol yn amserol ac mae cyd-weithio hefo partneriaid yn allweddol er mwyn sicrhau ansawdd parhaus. Mae rôl y tîm Sicrwydd Ansawdd a'u gallu i weithredu'n effeithiol yn greiddiol i gyflawni hyn.
- 3.12 Mae derbyn barn y preswylwyr/ defnyddwyr gwasanaeth yn rhan allweddol o fonitro a byddwn hefyd yn ceisio cael barn teuluoedd a staff wrth fonitro. Byddwn yn ceisio cael cyfle i drafod hefo preswylwyr tra ar ymweliad monitro neu bydd holiaduron yn cael eu hanfon allan. Bydd hyn yn galluogi unigolion (preswylwyr, teuluoedd a staff) i roi sylwadau dienw os mai dyna yw eu dymuniad.
- 3.13 Oherwydd y nifer o wasanaethau i'w monitro a'r llwyth gwaith presennol, nid yw hi'n bosibl i swyddogion y Tîm fonitro pob darparwr. Mae'r gwasanaeth wedi gorfod blaenoriaethu ac ar hyn o bryd, nid oes capasiti o fewn y Tîm i fonitro'r ddarpariaeth gofal cartref a gofal dydd gyda gweithgaredd yn y meysydd yma wedi eu cyfyngu i waith argyfwng neu ymatebol yn unig. Nid yw hynny yn sefyllfa foddhaol yn enwedig



o ystyried y pwysau sylweddol sydd ar y gwasanaethau yma ar hyn o bryd a'r galw sylweddol sydd am fwy o ofal cartref a chynnyddu gwasanaethau gofal ysbaid a gofal dydd.

- 3.14 Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r llwyth gwaith hefyd wedi golygu bod nifer o ddarparwyr yn mynd am gyfnod o hyd at ddwy flynedd rhwng ymweliadau monitro. Yn ddelfrydol dylid bod yn anelu at drefniant fel Cyngor Conwy sydd yn monitro pob darpariaeth bob 6 mis. Byddai hyn yn lleihau risgiau o wasanaethau yn methu yn sylweddol ac wrth gwrs yn lleihau'r tebygolrwydd o bryderon diogelu yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gofal.
- 3.15 Mae'n debyg y byddai nifer o'r aelodau yn cofio adroddiadau yn y wasg am sefyllfa erchyll Winterbourne View ble roedd preswylwyr hefo Anableddau Dysgu'n cael eu cam-drin yn gorfforol ac yn emosiynol. Yn ei hadolygiad o Ysbyty Winterbourne View (2012), mae Margaret Flynn yn nodi nad oedd gan yr awdurdodau trosolwg o'r ddarpariaeth ac nad oedd yr hyn oedd yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd lechyd yn cael ei fonitro o ran ansawdd y gofal nac o ran eu gallu i ddiwallu anghenion y preswylwyr. Mae angen i waith y tîm Sicrwydd Ansawdd sicrhau fod gan y Cyngor a'i bartneriaid y wybodaeth gyfredol angenrheidiol ar gyfer cael trosolwg cyflawn o ddarpariaethau gwasanaethau gofal oedolion yng Ngwynedd.

## **4 SYMUD YMLAEN**

- 4.1 Mae'r weledigaeth sydd gan yr Adran ar gyfer y dyfodol wedi ei seilio ar fod a'r gallu i gefnogi a monitro darpariaethau'n gyson, amserol a rheolaidd.
- 4.2 Mae'n rhaid sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fonitro'r holl ddarpariaethau sy'n cael eu comisiynu gan yr Adran, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth arall sydd o fewn y Sir.
- 4.3 Mae Arolygaeth Gofal Cymru yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Er eu bod yn ein rheoleiddio ar ein dyletswyddau statudol, mae ein gwaith Sicrwydd Ansawdd yn cyd-blethu er mwyn sicrhau ansawdd o fewn darpariaethau cofrestredig. Mae AGC yn ystyried bod darpariaeth sicrwydd ansawdd cadarn yn rhan bwysig o allu awdurdodau lleol i weithredu'n rhagweithiol i sicrhau safonau a diogelu Oedolion sy'n cael eu cefnogi.
- 4.4 Mae ffurflen adolygu wedi ei chreu i'r Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a swyddogion eraill ei chwblhau wrth adolygu achosion. Mae'r adborth yma yn gymorth i adnabod pryderon yn gynt ac yna cefnogi'r darparwyr i gyflwyno a chynnal gwelliannau.
- 4.5 Mae lleoli ein hanwyliaid mewn cartrefi gofal/ nyrsio yn benderfyniad anodd iawn ac mae'n hanfodol ein bod ni fel Awdurdod yn ymdrechu i sicrhau bod unigolion yn

derbyn gofal addas a diogel. Mae cyfeiriad eisoes wedi ei wneud i Winterbourne View ond mae'r enghraifft honno yn dangos effaith posib o beidio monitro ar y preswylwyr a'u teuluoedd.

- 4.6 Mae angen atal darpariaethau rhag mynd o dan y drefn Pryderon Cynyddol er osgoi pwysau cynyddol ar wasanaethau Mae un cartref nyrsio a dau gartref gofal wedi cau yn y Sir yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'n hanfodol cefnogi'r darparwyr er mwyn sicrhau bod dewis o ddarpariaeth leol i drigolion Gwynedd.
- 4.7 Bydd y wybodaeth a gyflwynir ar lafar yn y Pwyllgor yn ategu'r adroddiad yma er hwyluso ystyriaeth y Pwyllgor o allu'r gwasanaeth Tîm Sicrwydd Ansawdd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol a thrwy hynny i warchod diddordebau a diogelu trigolion Gwynedd.